# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 23 Gorffennaf 2025

Yn Bresennol
Y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mr G Jones, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd V Thomas.

Swyddogion yn bresennol
Sarah Griffiths, Astari (Archwilio Mewnol), Prif Weithredwr, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth, Rheolwr Prosiectau Adeiladu, Arweinydd Tîm Technoleg Gwybodaeth, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.20am; 11.30am – 12.05pm)

**1. Penodi Cadeirydd**

Agorodd Cadeirydd yr Awdurdod, Dr M Havard, y cyfarfod a dweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer swydd y Cadeirydd, sef y Cynghorydd D Clements.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd D Clements yn Gadeirydd am y flwyddyn oedd i ddod.

Yna cymerodd y Cynghorydd Clements y Gadair.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedwyd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd, sef y Cynghorydd C George.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd C George yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn oedd i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, y Cynghorydd B Price a Dr R Plummer.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau**.**

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025.

6. **Log Gweithredu**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod cam gweithredu 1077 ynghylch lefel y dirprwyo ar faterion risg wedi derbyn sylw pan gafodd y polisi ei adolygu, ac y gellid felly ei nodi yn gam sydd wedi'i gwblhau, a chytunwyd ar hynny.

O ran cam gweithredu 1059, Ffermio Bro, dywedodd y Prif Weithredwr bod y llyfryn wedi'i ddosbarthu ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno drwy'r adroddiad perfformiad.

**Nodwyd** gweddill y diweddariadau oedd yn y Log Gweithredu.

7. **Adroddiad yr Archwilio Mewnol**

Cyflwynodd Sarah Griffiths o Astari, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, adroddiadau ar Reolaethau Ariannol Allweddol (Asedau Sefydlog), Y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol, ac ar y Canolfannau Ymwelwyr. Roedd pob un wedi derbyn sicrwydd sylweddol gydag un argymhelliad blaenoriaeth isel o ran y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol, a dau argymhelliad blaenoriaeth isel ac un argymhelliad blaenoriaeth ganolig o ran y Canolfannau Ymwelwyr. Hefyd gwnaed nifer o awgrymiadau. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol yn ogystal oedd yn cynnwys Datganiad Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol oedd yn dod i'r casgliad rhesymol bod y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ddigonol ac yn effeithiol.

Wrth ymateb i'r adroddiadau, pwysleisiodd yr Aelodau pa mor bwysig yw hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant ar seiberddiogelwch, a dywedodd y swyddogion bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei symud i blatfform gwahanol fyddai o gymorth i fonitro ac i integreiddio'n well â'r rhaglen sefydlu; hefyd roedd hyfforddiant ychwanegol ar seiberddiogelwch wedi'i drefnu ar y cyd â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, ac roedd nifer da wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn. Hefyd dywedwyd bod archwiliadau o'r lifftiau yn Oriel y Parc wedi'u trefnu drwy'r yswirwyr.

**Nodwyd.**

**8. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (yn diweddu 31 Rhagfyr 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi gwneud cais am i Log Gweithredu gael ei greu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol i gynorthwyo i fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o’r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, ac roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio ers y cyfarfod diwethaf mewn ymateb i’r sylwadau. Eglurwyd y byddai'r camau gweithredu hynny oedd yn deillio o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu ar ôl y cyfarfod.

Nodwyd bod dau gam gweithredu o’r Archwilio allanol wedi'u cau, a chytunodd yr Aelodau, o ran y Strategaeth ar gyfer Amrywio Incwm, bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy'r Gweithgor Amrywio Incwm, ac y gellid datblygu fframwaith yn y dyfodol pe bai'r Grŵp hwnnw o’r farn y byddai hynny’n ddefnyddiol.

**Nodwyd.**

**9. Adroddiad Gwasanaethau Pobl**

Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddamweiniau a digwyddiadau yn ystod ail chwarter 2025, diweddariad ar bolisïau, absenoldeb staff oherwydd salwch, hyfforddiant a datblygiad, cyflogau a graddfeydd, a gwirfoddoli.

Gofynnodd yr Aelodau am y damweiniau fu bron â digwydd o ran dirgryniad llaw-braich a nodwyd yn yr adroddiad, a dywedwyd bod y digwyddiadau hyn wedi’u cynnwys yn yr adroddiad er mai ond damweiniau fu bron â digwydd oeddent oherwydd pwysigrwydd HAVS i'r Awdurdod a'r buddsoddiad oedd wedi’i wneud ar offer. Aeth y swyddogion ymlaen i ddweud bod y polisi wedi'i adolygu mewn cyfarfod yn ddiweddar, ac y byddai'r asesiad risg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Grŵp Iechyd a Diogelwch.

Hefyd nododd yr Aelodau bod cylch gwaith y Pwyllgor bellach yn cynnwys datblygiad Aelodau, ac adolygu'r sefydliad staff. Eglurodd y swyddogion bod rhai o'r materion hyn hefyd yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ond y byddent yn cael eu cynnwys ar agenda'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

O ran absenoldeb oherwydd salwch, gofynnodd un Aelod am i gymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol gael ei chynnwys yn y cyfarfod nesaf, ac o bosibl eglurhad ar y cymorth a gynigir ar faterion straen/ iechyd meddwl.

**Nodwyd.**

**10. Datganiad Cyfrifon Drafft**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno’r datganiad cyfrifon drafft 2024-25 er gwybodaeth, a’r disgwyl oedd y byddai wedi'i lofnodi erbyn 31 Gorffennaf a'i wneud ar gael i'r archwilwyr allanol i'w ardystio erbyn 31 Hydref 2025. Nodwyd bod rheoliad 10(1) o’r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu llofnodi erbyn 31 Mai 2025, fodd bynnag, roedd hyn wedi'i ohirio oherwydd newidiadau yn y systemau ariannol ac amserlen archwilio hwyrach fel y rhoddwyd gwybod gan Archwilio Cymru.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian mai'r newid allweddol yn y cyfrifon hyn oedd y newid i’r safonau cyfrifyddu o ran rhwymedigaethau prydlesi, a bod nodyn am y polisi cyfrifyddu newydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Dywedwyd bod y gwarged a ragwelwyd fis Rhagfyr 2024 wedi'i wireddu gyda chynnydd o £332k yn y cronfeydd. Roedd y datganiad incwm a gwariant yn dangos gwarged o £184k o ganlyniad i dderbyn £1.4m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ac yn sgîl gwireddu enillion ar eiddo buddsoddi a symudiadau yn y gronfa bensiwn, bu cyfanswm o £737k ychwanegol yn y cronfeydd wrth gefn am y flwyddyn. Tynnwyd sylw hefyd at y rhagdybiaethau a wnaed a’r farn a fynegwyd wrth baratoi'r cyfrifon.

Diolchodd yr Aelodau i’r swyddogion am eu holl waith caled yn paratoi’r cyfrifon.

**Nodwyd**.

**11. Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi trosolwg o drefniadau’r Awdurdod ar lywodraethu gan gynnwys ystyried ble oedd angen gwella’r prosesau a’r materion llywodraethu. Roedd fformat y ddogfen heb newid fawr ddim ers y llynedd, fodd bynnag, rhoddwyd diweddariad ar y modd yr oedd yr Awdurdod wedi dangos ei egwyddorion craidd o lywodraethu da dros y flwyddyn, ac yn rhoi sylwadau ar y modd yr oedd camau gwella llywodraethu o 2024-25 wedi'u rhoi ar waith. Gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau ar y ddogfen ddrafft fyddai'n cael ei chyhoeddi gyda'r Cyfrifon Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd yr Aelodau yn croesawu’r datganiad mwy darllenadwy ar yr un ffurf â’r datganiad a gyflwynwyd yn 2024, a chytunwyd bod y sylwadau ar

y camau gwella yn ddefnyddiol ac yn rhoi ffocws. Dywedwyd bod yr Aelodau wedi gwneud rhai sylwadau cyn y cyfarfod, ac y byddai’r sylwadau hynny yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

**Nodwyd.**

**12. Perfformiad y Gyllideb yn y Chwarter Cyntaf**

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian bod cyflwyno system gyllid newydd yn gynharach yn y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus, ond o ganlyniad nid oedd yn bosibl cyflwyno unrhyw ffigurau i'r Aelodau. Serch hynny, yn ôl pob golwg, roedd y ffigurau yn unol â’r gyllideb, a bod y llif arian parod yn unol â’r disgwyl.

**Nodwyd.**

**13. Eithrio’r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.20am a 11.30am.]

**14. Polisi Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg a’r Datganiad Rheoli Risg**

Eglurodd y Prif Weithredwr, yn dilyn cytundeb ar fersiwn ddiwygiedig o'r dogfennau Rheoli Risg gan yr Awdurdod fis Mehefin, bod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risg yn cael ei chyflwyno. Ers y cyfarfod fis Mehefin, roedd rhai camau gweithredu wedi'u diweddaru a newidiadau eraill wedi'u gwneud, ac amlinellwyd y materion hynny.

Hefyd rhoddwyd diweddariad ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o’r archwiliad mewnol blaenorol ar seiberddiogelwch.

**Nodwyd.**

**15. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.